

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A465  
(Pant, Merthyr Tudful) (Gwahardd  
Cerbydau Dros Dro) 2021

The A465 Trunk Road (Pant,  
Merthyr Tydfil) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order  
2021

*Gwnaed* 13 Ebrill 2021

*Made* 13 April 2021

*Yn dod i rym* 19 Ebrill 2021

*Coming into force* 19 April 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi a chychwyn**

**Title and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Pant, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Ebrill 2021.

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Pant, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 19 April 2021.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 19 Ebrill 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 07:00 hours on 19 April

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i’r Fenni.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o ffordd ymadael tua’r dwyrain yr A465 sy’n arwain at Ystad Ddiwydiannol Pant ym Mhant, Merthyr Tudful.

### **Cymhwyso**

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Ebrill 2021

Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the A465 eastbound exit slip road leading to Pant Industrial Estate at Pant, Merthyr Tydfil.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

13 April 2021

Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (PANT,  
MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, ger Ystad Ddiwydiannol Pant, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A465 sy'n arwain at Ystad Ddiwydiannol Pant ym Mhant, Merthyr Tudful.

Y llwybr arall yw mynd ar yr A465 tua'r dwyrain i Gylchfan Dowlais Top, dychwelyd tua'r gorllewin ac ymadael â'r A465 i ddilyn Rocky Road tua'r gorllewin, Bryniau Road tua'r gogledd/Tai-yr-Efail tua'r dwyrain a Pant Road tua'r de i Ystad Ddiwydiannol Pant.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 19 Ebrill 2021 a disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro mewn grym o 07:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw hyd 18:00 o'r gloch ar 9 Mai 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A465 TRUNK ROAD (PANT, MERTHYR  
TYDFIL) (TEMPORARY PROHIBITION OF  
VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road near Pant Industrial Estate, Merthyr Tydfil.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A465 eastbound exit slip road leading to Pant Industrial Estate at Pant, Merthyr Tydfil.

The alternative route is via the eastbound A465 to Dowlais Top Roundabout, return westbound and exit the A465 to follow the westbound Rocky Road, northbound Bryniau Road, northbound/eastbound Tai-yr-Efail and southbound Pant Road to Pant Industrial Estate.

The Order comes into force on 19 April 2021 and the temporary prohibition is expected to be in force from 07:00 hours on that date until 18:00 hours on 9 May 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government